



## CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

### OFFERYNNAU STATUDOL

**2003 Rhif 1079 (Cy.148)**

### ANIFEILIAID, CYMRU

#### IECHYD ANIFEILIAID

### Gorchymyn Clefydau Dofednod (Cymru) 2003

#### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn (o'i ddarllen gyda Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981(a)) yn gweithredu ymhellach Gyfarwyddeb y Cyngor 92/40/EEC sy'n cyflwyno mesurau Cymunedol ar gyfer rheoli ffliw adar(b) a Chyfarwyddeb y Cyngor 92/66/EEC sy'n cyflwyno mesurau Cymunedol ar gyfer rheoli clefyd Newcastle(c) ("y Cyfarwyddebau"). Gweithredwyd y Cyfarwyddebau o'r blaen gan Orchymyn Clefydau Dofednod 1994(ch) ("Gorchymyn 1994") a Gorchymyn Clefydau Dofednod (Diwygio) 1997(d), y mae'r ddau ohonynt yn cael eu dirymu gan y Gorchymyn hwn.

Mae Cymhwysiad y Gorchymyn yn cael ei estyn i adar di-gêl yn unol â'r Cyfarwyddebau. Mae'r Gorchymyn hwn yn estyn hefyd y darpariaethau yn erthygl 5A o Orchymyn 1994 (sy'n ymwneud â phwerau goruchwyllo a chyfyngiadau ar symud) i glefydau adar ac i rywogaethau adar nad yw'r Cyfarwyddebau yn eu cwmpasu. Mae'r darpariaethau hyn wedi'u hail-lunio a'u cynnwys yn erthyglau 5 a 6 o'r Gorchymyn hwn.

Mae erthyglau 1 i 3 o'r Gorchymyn yn cynnwys

- (a) 1981 p.22.
- (b) O J L167, 22.6.1992, t.1.
- (c) O J L260, 05.9.1992, t.1.
- (ch) O.S. 1994/3141
- (d) O.S. 1997/150.

## NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

### STATUTORY INSTRUMENTS

**2003 No. 1079 (W.148)**

### ANIMALS, WALES

#### ANIMAL HEALTH

### The Diseases of Poultry (Wales) Order 2003

#### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order (read with the Animal Health Act 1981(a)) further implements Council Directive 92/40/EEC introducing Community measures for the control of avian influenza(b) and Council Directive 92/66/EEC introducing Community measures for the control of Newcastle disease(c) ("the Directives"). The Directives were previously implemented by the Diseases of Poultry Order 1994(d) ("the 1994 Order") and the Diseases of Poultry (Amendment) Order 1997(e), both revoked by this Order.

The application of the Order is extended to ratites in accordance with the Directives. This Order also extends provisions in article 5A of the 1994 Order (relating to surveillance powers and movement restrictions) to diseases of birds and to species of birds not covered by the Directives. These provisions have been recast and are included in articles 5 and 6 of this Order.

Articles 1 to 3 of the Order contain introductory and

- (a) 1981 c.22.
- (b) O J L167, 22.6.1992, p.1.
- (c) O J L260, 05.9.1992, p.1.
- (d) S.I. 1994/3141.
- (e) S.I. 1997/150.

darpariaethau rhagarweiniol a darpariaethau ynglŷn â dehongli. Mae erthygl 4 yn darparu ar gyfer hysbysu clefydau penodol ac ar gyfer cymryd mesurau rhagofalu lle mae clefyd wedi'i amau. Mae erthygl 5 yn nodi'r cyfyngiadau a all fod yn gymwys os oes unrhyw glefyd wedi'i amau neu os yw'n hysbys ei fod yn bodoli, neu os amheuir fod adar wedi bod yn agored i risg clefyd. Mae erthygl 6 yn darparu ar gyfer ymchwiliad milfeddygol i fodolaeth clefyd. Mae erthygl 7 yn nodi'r cyfyngiadau sy'n gymwys os yw clefyd wedi'i gadarnhau. Mae'r cyfyngiadau y cyfeirir atynt yn erthyglau 4, 5 a 7 wedi'u nodi yn Atodlen 1.

Mae erthygl 8 yn nodi dyletswyddau meddianwyr a phersonau y mae safleoedd o dan eu gofal ac y mae hysbysiad o dan y Gorchymyn wedi'i gyflwyno iddynt.

Mae erthygl 9 yn darparu ar gyfer datgan ardal heintiedig gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol os yw clefyd wedi'i gadarnhau. Mae'r cyfyngiadau sy'n gymwys mewn ardal heintiedig wedi'u nodi yn Atodlen 2.

Mae erthygl 10 yn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol ei gwneud yn ofynnol bod doflednod yn cael eu brechu. Mae erthygl 11 yn nodi'r cyfyngiadau sy'n gymwys i golomennod rasio. Mae erthygl 12 yn cynnwys darpariaethau ar lanhau a diheintio. Mae erthygl 13 yn ymwneud â chadw cofnodion ac erthygl 14 â thrwyddedau. Mae erthygl 15 yn nodi pwerau cyffredinol arolygwyr milfeddygol o dan y Gorchymyn. Mae erthygl 16 yn darparu bod y Gorchymyn yn cael ei orfodi'n gyffredinol gan awdurdodau lleol. Mae erthygl 17 yn dirymu Gorchymyn Dofednod 1994(a) a Gorchymyn Clefydau Dofednod (Diwygio) 1997(b) i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru.

Mae methu â chydymffurfio â'r Gorchymyn hwn yn dramgydd o dan adran 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

Ni pharatowyd Arfarniad Rheoliadaol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn.

interpretation provisions. Article 4 provides for the notification of certain diseases and for the taking of precautionary measures when disease is suspected. Article 5 sets out restrictions which may apply if any disease is suspected or known to exist or where birds are suspected of having been exposed to the risk of disease. Article 6 provides for veterinary inquiry into the existence of disease. Article 7 sets out restrictions which apply where disease is confirmed. Restrictions referred to in articles 4, 5 and 7 are set out in Schedule 1.

Article 8 sets out the duties of occupiers and persons in charge of premises served with a notice under the Order.

Article 9 provides for the declaration by the National Assembly for Wales or the Secretary of State of an infected area where disease has been confirmed. Restrictions applicable in an infected area are set out in Schedule 2.

Article 10 allows the National Assembly for Wales or the Secretary of State to require vaccination of poultry. Article 11 sets out restrictions applicable to racing pigeons. Article 12 contains provisions on cleansing and disinfection. Article 13 relates to the keeping of records and article 14 to licences. Article 15 sets out the general powers of veterinary inspectors under the Order. Article 16 provides for the Order to be enforced generally by local authorities. Article 17 revokes the Diseases of Poultry Order 1994(a) and the Diseases of Poultry (Amendment) Order 1997(b) insofar as they apply to Wales.

Failure to comply with this Order is an offence under section 73 of the Animal Health Act 1981.

A Regulatory Appraisal under the Government of Wales Act 1998 has not been prepared for this Order.

---

(a) O.S. 1994/3141.

(b) O.S. 1997/150.

---

(a) S.I. 1994/3141.

(b) S.I. 1997/150.

## 2003 Rhif 1079 (Cy.148)

## ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Clefydau Dofednod  
(Cymru) 2003*Wedi'i wneud**9 Ebrill 2003**Yn dod i rym**12 Ebrill 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, a hwythau'n gweithredu ar y cyd wrth arfer eu pwerau o dan adrannau 1, 7, 8(1), 15(5), 17(1), 23, 25, 28, 35(1), 83(2), 87(5)(a) ac 88(4) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(a) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Teitl, cychwyn, a chymhwysedd**

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Clefydau Dofednod (Cymru) 2003 ac mae'n dod i rym ar 12 Ebrill 2003.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Estyn y diffiniad o "poultry" a "disease"**

2.-(1) Mae'r diffiniad o "poultry" yn adran 87(4) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 yn cael ei estyn i gynnwys pob aderyn.

(2) Mae'r diffiniad o "disease" yn adran 88(3) o'r Ddeddf yn cael ei estyn i gynnwys pob clefyd adar.

---

(a) 1981 p.22. Trosglwyddwyd y swyddogaethau a roddwyd o dan Ddeddf 1981 i "the Ministers" (fel y'u diffinir yn adran 86 o'r Ddeddf honno) i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau ar y cyd "the Ministers" a oedd yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban mewn perthynas â Chymru i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141). Trosglwyddwyd ymhellach holl swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd wedyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).

## 2003 No. 1079 (W.148)

## ANIMALS, WALES

## ANIMAL HEALTH

The Diseases of Poultry (Wales)  
Order 2003*Made**9th April 2003**Coming into force**12th April 2003*

The National Assembly for Wales and the Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs, acting jointly in exercise of their powers under sections 1, 7, 8(1), 15(5), 17(1), 23, 25, 28, 35(1), 83(2), 87(5)(a) and 88(4) of the Animal Health Act 1981(a) make the following Order:

**Title, commencement, and application**

1.-(1) This Order may be cited as the Diseases of Poultry (Wales) Order 2003 and comes into force on 12th April 2003.

(2) This Order applies in relation to Wales only.

**Extension of definition of "poultry" and "disease"**

2.-(1) The definition of "poultry" in section 87(4) of the Animal Health Act 1981 is extended to include all birds.

(2) The definition of "disease" in section 88(3) of the Act is extended to include all diseases of birds.

---

(a) 1981 c.22. Functions conferred under the 1981 on "the Ministers" (as defined in section 86 of that Act) were transferred so far as exercisable by the Secretary of State for Wales in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). The joint functions of "the Ministers" exercisable by the Secretary of State for Scotland in relation to Wales were transferred to the Minister of Agriculture, Fisheries and Food by the Transfer of Functions (Agriculture and Food) Order 1999 (S.I. 1999/3141). All functions of the Minister of Agriculture, Fisheries and Food were then further transferred to the Secretary of State by the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food (Dissolution) Order 2002 (S.I. 2002/794).

## Dehongli

### 3.-(1) Yn y Gorchymyn hwn -

mae "aderyn" ("bird") yn cynnwys dofednod, os na fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall; ystyr "carcas" ("carcase") yw carcas dofednod neu unrhyw aderyn ac eithrio dofednod, yn ôl gofynion y cyd-destun, ac mae'n cynnwys rhan o garcas; ystyr "clefyd dynodedig" ("designated disease") yw paramycsfirws 1 mewn colomennod, ffliw adar a chlefyd Newcastle; ystyr "colomen rasio" ("racing pigeon") yw unrhyw golomen sy'n cael ei chludo neu y bwriedir ei chludo o'i cholomendy (sef, unrhyw sefydliad sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cadw neu fridio colomennod rasio) i'w rhyddhau er mwyn iddi allu hedfan yn ddirwystr yn ôl i'w cholomendy neu i unrhyw grychnod arall; ystyr "daliad" ("holding") yw safle sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer magu neu gadw dofednod bridio neu ddofednod cynhyrchiol ac sydd ag un rhif daliad plwyf sirol yn cael ei gydnabod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol fel yr un sy'n dynodi'r daliad hwnnw; ystyr "diheintio" ("disinfect") yw diheintio â diheintydd a gymeradwywyd o dan Orchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintydion a Gymeradwywyd) 1978(a) at ddibenion y Gorchymyn hwn; ystyr "dofednod" ("poultry") yw ffowls domestig, tyrcwn, gwyddau, hwyaid, ieir gini, sofleir, colomennod, adar di-gêl, ffaesantod a pheris; ystyr "Prif Swyddog Milfeddygol" ("Chief Veterinary Officer") yw Prif Swyddog Milfeddygol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig; ystyr "Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol" ("Divisional Veterinary Manager") yw'r arolygydd milfeddygol a benodwyd am y tro gan yr Ysgrifennydd Gwladol i gael gwybodaeth am adar â chlefyd neu adar dan amheuaeth, neu garcasau yn yr ardal y mae'r adar neu'r garcasau hynny wedi'u lleoli ynnddi; ac mae "safle" ("premises") yn cynnwys unrhyw dir, adeiladau ac unrhyw le arall.

(2) Rhaid i unrhyw hysbysiad neu drwydded a gyflwynir neu a ddyroddir o dan y Gorchymyn hwn neu o dan Orchymyn datganiadol a wnaed o dan erthygl 9 isod fod yn ysgrifenedig a gallant fod yn gyffredinol neu'n benodol yn ddarostyngedig i amodau neu gellir eu diwygio, eu gohirio neu eu dirymu drwy hysbysiad ysgrifenedig ar unrhyw bryd.

(a) O.S. 1978/32.

## Interpretation

### 3.-(1) In this Order -

"bird" ("aderyn") includes poultry, unless the context otherwise requires;

"carcase" ("carcas") means the carcase of poultry or of any bird other than poultry, as the context requires, and includes part of a carcase;

"Chief Veterinary Officer" ("Prif Swyddog Milfeddygol") means the Chief Veterinary Officer of the Department for Environment, Food and Rural Affairs;

"designated disease" ("clefyd dynodedig") means paramyxovirus 1 in pigeons, avian influenza and Newcastle disease;

"disinfect" ("dihentio") means disinfect with a disinfectant approved under the Diseases of Animals (Approved Disinfectants) Order 1978(a) for the purposes of this Order;

"Divisional Veterinary Manager" ("Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol") means the veterinary inspector appointed for the time being by the Secretary of State to receive information about diseased or suspected birds or carcases in the area in which such birds or carcases are located;

"holding" ("daliad") means premises used for the rearing or keeping of breeding or productive poultry which have one county parish holding number recognised by the National Assembly for Wales and the Secretary of State as identifying that holding;

"poultry" ("dofednod") means domestic fowls, turkeys, geese, ducks, guinea fowls, quails, pigeons, ratites, pheasants and partridges;

"premises" ("safle") includes land, buildings and any other place; and

"racing pigeon" ("colomen rasio") means any pigeon transported or intended for transport from its pigeon house (any installation used for keeping or breeding racing pigeons) to be released so that it may freely fly back to its pigeon house or to any other destination.

(2) Any notice or licence served or issued under this Order or under a declaratory Order made under article 9 below must be in writing, may be general or specific, may be the subject of conditions and may be amended, suspended or revoked by notice in writing at any time.

(a) S.I. 1978/32.

## **Y gweithdrefnau hysbysu a'r rhagofalon sydd i'w cymryd os amheuir bod clefyd dynodedig yn bresennol**

**4.-(1)** Rhaid i berson a chanddo yn ei feddiant neu o dan ei ofal unrhyw aderyn neu garcas â chlefyd dynodedig, neu yr amheuir bod arno glefyd o'r fath -

- (a) hysbysu'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol ar unwaith, a
- (b) cymryd bob cam rhesymol i sicrhau cydymffurfedd â'r cyfyngiadau a'r gofynion sydd wedi'u nodi yn Rhan I o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**(2)** Rhaid i berson sy'n archwilio unrhyw aderyn neu garcas neu'n edrych yn fanwl arno neu sy'n dadansoddi unrhyw sampl a gymerwyd o unrhyw aderyn neu garcas, ac sy'n amau bod clefyd dynodedig yn bresennol yn yr aderyn, y carcas neu'r sampl hysbysu'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol ar unwaith.

## **Y cyfyngiadau os amheuir bod clefyd**

**5.-(1)** Os oes gan arolygydd milfeddygol seiliau rhesymol dros amau naill ai -

- (a) bod clefyd dynodedig yn bodoli neu wedi bodoli ar unrhyw safle (p'un a yw hysbysiad wedi'i roi o dan erthygl 4 neu beidio), neu
- (b) bod dofednod ar unrhyw safle wedi bod yn agored i risg clefyd dynodedig,
- (c) rhaid iddo, yn ddarostyngedig i baragraff (3), gyflwyno hysbysiad i feddiannydd y safle neu i geidwad unrhyw adar ar y safle yn ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r gofynion sydd wedi'u cynnwys yn Rhan I o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**(2)** Os oes gan arolygydd milfeddygol seiliau rhesymol dros amau bod adar ar unrhyw safle wedi bod yn agored i risg unrhyw glefyd, caiff gyflwyno hysbysiad i feddiannydd y safle neu i geidwad unrhyw adar ar y safle yn ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r gofynion sydd wedi'u cynnwys yn Rhan I o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**(3)** Yn achos unrhyw hysbysiad a gyflwynir o dan baragraffau (1)(b) neu (2) caiff arolygydd milfeddygol-

- (a) datgymhwysu un neu fwy o'r gofynion sydd wedi'u cynnwys yn Rhan I o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn,
- (b) cyfyngu ar y gofynion sy'n gymwys i ran o'r safle ac i'r adar sydd wedi'u cynnwys yno, ar yr amod bod yr adar wedi'u lletya, eu cadw a'u bwydo yno ar wahân i adar sydd wedi'u cadw mewn rhannau eraill o'r safle ac wedi'u cadw a'u bwydo gan staff gwahanol.

**(4)** At ddibenion paragraff (1)(a) mae "arolygydd milfeddygol" yn cynnwys arolygydd.

**(5)** Yn yr erthygl hon, mae bod yn agored i risg

## **Notification procedures and precautions to be taken where the presence of a designated disease is suspected**

**4.-(1)** A person who has in his or her possession or under his or her charge any bird or carcase having, or suspected of having, a designated disease must -

- (a) immediately inform the Divisional Veterinary Manager, and
- (b) take all reasonable steps to ensure that the restrictions and requirements set out in Part I of Schedule 1 to this Order are complied with.

**(2)** A person who examines or inspects any bird or carcase or who analyses any sample taken from any bird or carcase, and who suspects the presence of a designated disease in the bird, carcase or sample must immediately inform the Divisional Veterinary Manager.

## **Restrictions where disease is suspected**

**5.-(1)** If a veterinary inspector has reasonable grounds for suspecting that either -

- (a) a designated disease exists or has existed on any premises (whether or not notification has been made under article 4), or
- (b) that poultry on any premises have been exposed to the risk of a designated disease,
- (c) he or she shall, subject to paragraph (3), serve a notice on the occupier of the premises or on the keeper of any birds on the premises requiring him or her to comply with the requirements contained in Part 1 of Schedule 1 to this Order.

**(2)** If a veterinary inspector has reasonable grounds for suspecting that birds on any premises have been exposed to the risk of any disease, he or she may serve a notice on the occupier of the premises or on the keeper of any birds on the premises requiring him or her to comply with the requirements contained in Part I of Schedule 1 to this Order.

**(3)** In the case of any notice served under paragraphs (1)(b) or (2) a veterinary inspector may -

- (a) disapply one or more of the requirements contained in Part 1 of Schedule 1 to this Order,
- (b) limit the requirements that apply to a part of the premises and to the birds contained there, provided that the birds have been housed, kept and fed separately from birds kept in other parts of the premises and kept and fed by separate staff.

**(4)** For the purposes of paragraph (1)(a) "veterinary inspector" includes an inspector.

**(5)** In this article, exposure to risk of disease means

clefyd yn cynnwys bod yn agored, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o ganlyniad i symudiad personau, anifeiliaid neu gerbydau, neu mewn unrhyw ffordd arall.

### **Ymchwiliad milfeddygol ynglŷn â bodolaeth clefyd**

6.-(1) Os yw hysbysiad wedi'i gyflwyno yn unol ag is-baragraff (1)(a) o erthygl 5, rhaid i arolygydd milfeddygol fynd ar y safle sy'n destun yr hysbysiad a gwneud yr ymholiadau, yr archwiliadau a'r profion a chymryd y samplau (gan gynnwys adar byw a charcasau), sy'n angenrheidiol er mwyn canfod a oes clefyd yn bodoli yno neu wedi bodoli yno, ac, yn benodol, i gadarnhau

- (i) pa mor hir y mae'r clefyd wedi bodoli ar y safle,
- (ii) tarddiad posibl y clefyd ar y safle,
- (iii) pa safle allai fod wedi bod yn agored i halogiad â'r clefyd o'r safle sy'n destun yr ymchwiliad, a
- (iv) i ba raddau y mae clefyd wedi'i gario i'r safle sy'n destun yr ymchwiliad neu ohono.

(2) Os yw hysbysiad wedi'i gyflwyno yn unol ag is-baragraff (1)(b) o erthygl 5 neu baragraff (2) o erthygl 5, rhaid i arolygydd milfeddygol

- (a) gwneud unrhyw ymholiadau y mae eu hangen er mwyn darganfod unrhyw seiliau rhesymol dros amau clefyd, ac wrth wneud hynny, caiff gynnal archwiliadau a phrofion a chymryd samplau fel y gwêl yn dda;
- (b) cyfrif y dofednod; a
- (c) monitro eu symudiadau.

(3) Caiff arolygydd milfeddygol farcio, neu beri marcio, at ddibenion adnabod unrhyw aderyn, unrhyw garcas neu unrhyw beth arall y mae unrhyw un o'r pwerau o dan baragraffau (1) a (2) wedi'i arfer mewn perthynas ag ef, neu beri iddynt gael eu marcio felly.

(4) Rhaid i samplau gael eu casglu a phrofion labordy gael eu cynnal o dan yr erthygl hon (mewn perthynas â ffliw adar) yn unol ag Atodiad III o Gyfarwyddeb y Cyngor 92/40/EEC ac, (mewn perthynas â chlefyd Newcastle a pharamycsofirws mewn colomennod), yn unol ag Atodiad III o Gyfarwyddeb y Cyngor 92/66/EEC.

(5) Rhaid i feddianydd y safle neu geidwad unrhyw adar ar y safle neu unrhyw berson sy'n cael ei gyflogi ganddo roi unrhyw gymorth rhesymol i arolygydd milfeddygol y bydd arno ei angen er mwyn arfer ei bwerau o dan baragraffau (1), (2) a (3) uchod.

exposure, either directly or indirectly, as a result of the movement of persons, animals or vehicles or in any other way.

### **Veterinary inquiry as to the existence of a disease**

6.-(1) Where a notice has been served in accordance with sub-paragraph (1)(a) of article 5, a veterinary inspector shall enter the premises that are subject to the notice and carry out such inquiries, examinations and tests and take such samples (including live birds and carcasses), as are necessary to ascertain whether disease exists or has existed there and, in particular, to establish

- (i) the length of time the disease has existed on the premises,
- (ii) the possible origin of the disease on the premises,
- (iii) which premises may have been exposed to contamination by the disease from the premises under inquiry, and
- (iv) the extent to which a disease has been carried to or from the premises under inquiry.

(2) Where a notice has been served in accordance with sub-paragraph (1)(b) of article 5 or paragraph (2) of article 5, a veterinary inspector shall -

- (a) carry out such inquiries as are necessary in order to detect any reasonable grounds for suspicion of a disease and, in doing so, may conduct examinations, tests and take samples as he or she sees fit;
- (b) count the poultry; and
- (c) monitor their movements.

(3) A veterinary inspector may mark, or cause to be marked, for identification purposes any bird, carcase or other thing in relation to which any of the powers under paragraphs (1) and (2) have been exercised.

(4) Collection of samples and laboratory testing under paragraph (2) shall be carried out (in relation to avian influenza) in accordance with Annex III of Council Directive 92/40/EEC and (in relation to Newcastle disease and paramyxovirus in pigeons), with Annex III of Council Directive 92/66/EEC.

(5) The occupier of the premises or the keeper of any birds on the premises or any person in his or her employment shall provide such reasonable assistance to a veterinary inspector as he or she may require for the exercise of his or her powers under paragraphs (1), (2) and (3) above.

## **Y mesurau i'w cymryd os cadarnheir bod clefyd dynodedig**

7.-(1) Pan fydd presenoldeb clefyd dynodedig ar safle yn cael ei gadarnhau gan y Prif Swyddog Milfeddygol neu gan berson sydd wedi'i awdurdodi ganddo -

- (a) yn achos dofedor, rhaid i arolygydd milfeddygol, a
- (b) yn achos adar caeth eraill neu golomennod rasio, caiff arolygydd milfeddygol

drwy hysbysiad a gyflwynir i feddiannydd y safle neu geidwad unrhyw adar ar y safle, osod gofynion sydd wedi'u cynnwys yn Rhan II o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn ychwanegol i'r amodau a osodir yn rhinwedd yr hysbysiadau a gyflwynir o dan erthygl 5.

(2) Caiff arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad o'r fath hefyd i feddiannydd safle, neu geidwad adar ar safle, a hwnnw'n safle sydd, oherwydd ei leoliad, ei ddyluniad neu ei gysylltiad â safle (yng Nghymru neu mewn man arall), lle mae presenoldeb clefyd dynodedig wedi'i gadarnhau yno gan y Prif Swyddog Milfeddygol neu gan berson sydd wedi'i awdurdodi ganddo, yn cynnwys dofedor, adar caeth eraill neu golomennod rasio a allai, ym marn yr arolygydd milfeddygol, fod wedi bod yn agored i risg clefyd dynodedig.

## **Dyletswyddau meddianwyr safleoedd a phersonau y mae safleoedd o dan eu gofal y cyflwynwyd hysbysiadau iddynt**

8.-(1) Rhaid i berson y cyflwynwyd hysbysiad iddo o dan y Gorchymyn hwn -

- (a) cymryd pob cam rhesymol i sicrhau cydymffurfedd â'r hysbysiad oni bai ei fod wedi'i awdurdodi i wneud fel arall o dan drwydded a ddyroddwyd gan arolygydd milfeddygol; a
- (b) rhoi unrhyw gymorth rhesymol y bydd ar yr arolygydd milfeddygol ei angen er mwyn arfer ei bwerau o dan erthygl 5, 7 ac 8.

(2) Os bydd unrhyw berson yn methu â chydymffurfio ag unrhyw gyfyngiad neu ofyniad sy'n cael ei osod drwy hysbysiad a gyflwynwyd o dan y Gorchymyn hwn, caiff arolygydd neu swyddog arall i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu arolygydd i awdurdod lleol

- (a) atafaelu neu beri atafaelu unrhyw beth sydd wedi'i symud yn groes i'r hysbysiad a'i gadw mewn unrhyw fan y mae'n barnu ei bod yn briodol nes bod yr hysbysiad yn cael ei dynnu'n ôl; neu
- (b) cymryd unrhyw gamau eraill sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw gyfyngiad neu ofyniad sy'n cael ei osod drwy'r hysbysiad neu sicrhau y gweithredir y cyfyngiad neu'r gofyniad hwnnw.

## **Measures where a designated disease is confirmed**

7.-(1) Upon the presence of a designated disease on premises being confirmed by the Chief Veterinary Officer or by a person authorised by him or her, a veterinary inspector -

- (a) in the case of poultry shall, and
- (b) in the case of other captive birds or racing pigeons, may

by notice served on the occupier of the premises or the keeper of any birds on the premises, impose the requirements contained in Part II of Schedule 1 to this Order in addition to the conditions imposed by virtue of notices issued under article 5.

(2) A veterinary inspector may also serve such a notice on the occupier of premises or keeper of birds on premises which, because of their location, configuration or contact with premises (in Wales or elsewhere) where the presence of a designated disease has been confirmed by the Chief Veterinary Officer or by a person authorised by him or her, contain poultry, other captive birds or racing pigeons which may, in the opinion of the veterinary inspector, have been exposed to the risk of a designated disease.

## **Duties of occupiers and persons in charge of premises served with notices**

8.-(1) A person served with a notice under this Order shall -

- (a) take all reasonable steps to ensure that the notice is complied with unless he or she is authorised to do otherwise by a licence issued by a veterinary inspector; and
- (b) provide such reasonable assistance as the veterinary inspector may require for the purpose of exercising his or her powers under article 5, 6 and 7.

(2) If any person fails to comply with any restriction or requirement imposed by a notice served under this Order, an inspector or other officer of the Secretary of State or the National Assembly for Wales or an inspector of the local authority may

- (a) seize or cause to be seized anything which has been moved in contravention of the notice and detain it at such place as he shall consider appropriate until the notice is withdrawn; or
- (b) take such other action as may be necessary so as to ensure that any restriction or requirement imposed by the notice is complied with or carried out.

(3) Rhaid i unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd o dan baragraff (2) fod heb ragfarn i unrhyw achos am dramgydd sy'n codi yn sgil mynd yn groes i hysbysiad a gyflwynwyd o dan y Gorchymyn hwn.

(4) Bydd person sy'n methu â chydymffurfio â hysbysiad sy'n cael ei gyflwyno o dan y Gorchymyn hwn yn atebol am unrhyw gostau a dynnir o dan baragraff (2) uchod.

### Datgan ardal heintiedig

9.-(1) Pan fydd presenoldeb clefyd dynodedig mewn dofednod mewn unrhyw ardal yng Nghymru neu mewn man arall yn cael ei gadarnhau gan y Prif Swyddog Milfeddygol neu gan berson sydd wedi'i awdurdodi ganddo, rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy Orchymyn datganiadol, ddatgan bod y rhan o'r ardal honno sydd yng Nghymru yn ardal heintiedig.

(2) Pan fydd presenoldeb clefyd dynodedig mewn adar caeth ac eithrio dofednod neu mewn colomennod rasio mewn unrhyw ardal yng Nghymru neu mewn man arall yn cael ei gadarnhau gan y Prif Swyddog Milfeddygol neu gan berson sydd wedi'i awdurdodi ganddo a phan gaiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol ei fodloni bod presenoldeb y clefyd hwnnw mewn adar o'r fath yn golygu risg difrifol i ddofednod, caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy Orchymyn datganiadol, ddatgan bod y rhan o'r ardal honno sydd yng Nghymru yn ardal heintiedig.

(3) Rhaid i ardal aros yn ardal heintiedig tan unrhyw ddyddiad sydd wedi'i nodi yn y Gorchymyn datganiadol, neu, os nad oes un, nes bod y Gorchymyn datganiadol yn cael ei dynnu'n ôl.

(4) Bernir bod unrhyw safle sy'n rhannol y tu mewn ac yn rhannol y tu allan i ardal heintiedig yn gyfan gwbl y tu mewn i'r ardal honno.

(5) Gall Gorchymyn datganiadol fod yn gymwys i bob aderyn neu i rywogaethau dynodedig.

(6) Rhaid i Orchymyn datganiadol ddarparu ar gyfer rhannu'r ardal heintiedig yn barthau diogelu a pharthau goruchwylia, a'r parth diogelu wedi'i seilio ar radiws o dri chilometr o leiaf, a'r parth diogelu hwnnw ei hun wedi'i gynnwys mewn parth goruchwylia wedi'i seilio ar radiws o ddeg cilometr o leiaf, a hynny wedi'i seilio ar ganol y safle lle mae clefyd wedi'i gadarnhau, neu ar unrhyw radiysau llai y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn eu datgan.

(7) Bydd darpariaethau Atodlen II yn gymwys mewn ardal sydd wedi'i datgan yn ardal heintiedig ac eithrio i'r graddau y maent yn cael eu hamrywio neu eu heithrio drwy'r Gorchymyn datganiadol neu i'r graddau y byddai unrhyw beth a fyddai fel arall yn torri'r Gorchymyn hwn yn cael ei awdurdodi drwy drwydded a ddyroddwyd gan arolygydd milfeddygol.

(3) Any action taken under paragraph (2) shall be without prejudice to any proceedings for an offence arising out of contravention of a notice served under this Order.

(4) A person failing to comply with a notice served under this Order shall be liable for any costs incurred under paragraph (2) above.

### Declaration of infected area

9.-(1) Upon the presence in any area in Wales or elsewhere of a designated disease in poultry being confirmed by the Chief Veterinary Officer or by a person authorised by him or her, the National Assembly for Wales or the Secretary of State shall, by declaratory Order, declare such of that area as is in Wales to be an infected area.

(2) Upon the presence in any area in Wales or elsewhere of a designated disease in captive birds other than poultry or in racing pigeons being confirmed by the Chief Veterinary Officer or by a person authorised by him or her and upon the National Assembly for Wales or the Secretary of State being satisfied that the presence of that disease in such birds constitutes a serious risk to poultry, the National Assembly for Wales or the Secretary of State may, by declaratory Order, declare such of that area as is in Wales to be an infected area.

(3) An area shall remain an infected area until such date as may be stated in the declaratory Order, or, if none, until the declaratory Order is withdrawn.

